CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol / Annual Report 2021 - 2022




*Cennin Pedr y Gwanwyn yn Llechryd / Spring daffodils at Llechryd*


Cyngor Cymdeithas Llangoedmor
Llangeodmor Community Council

***Ffon / Tel:*** **01239 872116** ***E-bost / E-mail:*** llangoedmorcc@gmail.com
**Gwefan / *Web:*** http://llangoedmorcc.org.uk/



*Ras hwyaid flynyddol wedi'i threfnu gan y Parti yn y Parc / Annual duck race organised by the Parti yn y Parc*

## Cyflwyniad y Cadeirydd/Chairman's Introduction

Yn sicr fe fu'n flwyddyn ddiddorol, a ninnau yng nghanol y pandemig COVID ac etholiad. Ond rydyn wedi parhau i gefnogi'r gymuned yn yr adegau hyn ac wedi llwyddo i gyflawni rhai prosiectau a dechrau rhai newydd.

Croesawyd tri chynghorydd newydd, sef y Cyng Ruth Davies, y Cyng Colin Lewis a'r Cyng Laura Holder, y ddau gyntaf wedi bod yn aelodau o'r cyngor cymuned yn gynharach. Hoffwn ddiolch i'r ddau gynghorydd sydd wedi rhoi'r gorau i'r swydd yn ystod y flwyddyn, sef y Cyng Steve Kings a'r Cyng Clare Proven am eu cymorth a'u cyfraniad yn ystod y flwyddyn.

Roedd hi'n braf hefyd i ddod nôl i ryw fath o normalrwydd eto, gyda'n harferiad traddodiadol o gynnau'r goleuadau Nadolig, pan fu'r plant yn canu ar ôl blwyddyn o fwlch,  a chyflwynwyd anrheg i bob un ohonynt oddi wrth y cyngor cymuned. Er na lwyddwyd i gael ein gwasanaeth arferol ar Sul y Cofio, llwyddwyd i roi ein teyrnged drwy osod torch.

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn, yn enwedig gweithwyr y GIG a'r gwasanaethau argyfwng eraill yn ystod y pandemig.

It certainly has been an interesting year while being right in the middle of the COVID pandemic and an upcoming election on the horizon, but we have continued to support the community in these times and managed to get some projects done while starting new ones.

We welcomed three new councillors, Cllr Ruth Davies, Cllr Colin Lewis and Cllr Laura Holder, the previous two who have been on the community council in previous years. I'd like to thank the two councillors who have stood down during the year, Cllr Steve Kings and Cllr Clare Proven for their help and input during the year.

It was also good to get to back to some sort of normality, with our traditional turning on the Christmas lights, where we got to see the children singing after a year's hiatus to present them all with a gift from the community council. Although we weren't able to have our usual Remembrance Sunday service, we were still able to pay our respects by laying a wreath.

Many thanks to everyone for their support during the year, especially the NHS and other emergency service workers during the pandemic.

# Newyddion y Cyngor / Council News

## MAN CHWARAE

Yn ystod 2021-22 tynnwyd yr hen ffrâm ddringo i lawr. Cymerwyd camau i  osod contract am ddarparu gatiau sy'n cau ohonynt eu hunain ac am ailosod y man concrid. Talwyd am y rhain gan y Cyngor Cymdeithas ar ran elusen Cymdeithas Cae Chwarae Llechryd.



## PLAYGROUND

2021-22 saw the replacement of the ageing climbing frame. Steps were taken to contract for the installation of self closing gates and relaying the concrete area. Funded by the Community Council on behalf of the Llechryd Playing Field Association charity.

.

## Baw  cŵn

Er bod baneri wedi'u comisiynu'n arbennig wedi'u gosod o gwmpas y cae chwarae, roedd baw cŵn yn dal yn broblem.

Cofiwch godi baw eich ci i wneud ein mannau cyhoeddus yn ddiogel ac yn lân.

## Dog fouling

Despite placing specially commissioned banners around the playing field, dog fouling continued to be an issue.

Please pick up after your dog to make our public spaces safe and clean.




Enghraifft o'r baneri a gafodd eu dylunio a'u cynhyrchu gan y Cyngor Cymuned




*An example of the banners designed and produced by the Community Council*



*Goleuadau Nadolig 2021 / Christmas Lights 2021*

## Digwyddiadau

Codwyd goleuadau Nadolig newydd wrth goeden yn ymyl yr Ysgol (gyda diolch am garedigrwydd BARCUD am eu caniatâd eto).

Rhoddwyd melysion i blant yr ysgol a gymerodd ran yn y canu carolau  wrth gynnau'r goleuadau.



*Siôn Corn yn dod i'r pentref / Santa comes to the village*

## Events

New Christmas lights were erected at the tree adjacent the School (with kind thanks to BARCUD for the ongoing permission).

Bags of sweets were given to the school children participating in the carol singing at the lights switch on.

## Llifogydd

Mynegodd y Cyngor ei ddiolch i'r holl wirfoddolwyr sy'n rhan o'r grŵp Gwytnwch sy'n cynorthwyo trigolion pan fydd llifogydd yn effeithio arnynt.

Mae'r Cyngor yn dal i lobio Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ceredigion i gadw bwâu'r bont yn glir.

## Flooding

The Council expressed its thanks to all the volunteers who form part of the Resilience group which assists residents affected during flooding.

The Council continues to lobby Natural Resources Wales and Ceredigion County Council to keep the bridge arches clear.

## Diffibrileiddwyr

Wrth i'r pryderon gynyddu am yr amserau aros am wasanaethau meddygol argyfwng, bu'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am

- Gynnal y diffibrileiddiwr wrth y bloc toiledau yn Llechryd
- Chwilio am safle addas i osod diffibrileiddiwr newydd yn Llangoedmor

## Defibrillators

As concerns rose with regard to waiting times for medical emergency services the Community Council

- Maintained the defibrillator at the toilet block in Llechryd
- Sought a suitable site to position and new defibrillator in Llangoedmor

## Priffyrdd

Mae'r Cyngor Cymdeithas yn dal i lobio ar ddiogelwch y ffyrdd yn ei ardal.

## Highways

The Community Council continues to lobby on road safety throughout its area.

## Bloc Toiledau a Chysgodfan Bysiau

Rhoddwyd cot o baent i'r bloc toiledau ym mharc ceir Neuadd y Cwrwgl a'r gysgodfan bysiau wrth ymyl Preseli View i'w tacluso.

## Toilet Block and Bus Shelter

Both the toilet block in the Coracle Hall car park and the bus shelter by Preseli View were given a coat of paint to spruce them up.

## Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd

Ar ôl niwed sylweddol yn y fynwent oherwydd llifogydd, mae'r Cyngor Cymuned sydd â'r brydles ar yr eiddo, yn dal i gysylltu â'i yswirwyr ac â'r Eglwys yng Nghymru i geisio cael ffordd foddhaol ymlaen i'w thrwsio.

Gwnaed asesiad risg llawn o'r cerrig beddau yn y Fynwent gyda chymorth caredig Grave Concerns, Llechryd.

## St David's Holy Cross Church, Llechryd


Following significant flooding damage in the Churchyard the Council, which leases the property, continues to liaise with both its insurers and the Church in Wales to find a satisfactory way forward to effect repairs.

It carried out a full risk assessment of monuments within the Churchyard with the kind assistance of Grave Concerns, Llechryd.

# A Cyllid / Finance


### Cyllideb 2021/22 / 2021/22 Budget

### Praesept / Precept £40000





Cyllideb Cyfalaf i ddod o'r cronfeydd wrth gefn / Capital budget to come from reserves

### Incwm 2021/22 2021/22 Income £55950




Praese Grantiau W C Finch Ailgylchu CSC Hawliad Ywiriant /Ad-daliad Trethi

**Gwariant 2021/22 / 2021/22 Expenditure - £22880**




Cafodd rhywfaint o'r gwariant cyfalaf a oedd wedi ei fwriadu ar gyfer 21/22 ei ohirio tan 22./23. / Some capital expenditure planned for 21/22 was deferred to 22/23

Cafodd rhywfaint o'r gwariant cyfalaf a oedd wedi ei fwriadu ar gyfer 21/22 ei ohirio tan 22./23.

Bydd Cyngor Cymdeithas Llangoedmor yn cwrdd ar y Llun cyntaf o bob mis am 7pm (heblaw am Wyliau'r Banc - gweler y wefan). Caiff y chwarter awr gyntaf ei neilltuo ar gyfer unrhyw aelod o'r gymuned sy'n dymuno codi mater gyda'r Cyngor Cymdeithas.

Ar hyn o bryd cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn Neuadd y Cwrwgl (oni fydd trefn wahanol yn cael ei hysbysebu) gyda mynediad drwy Zoom, ac estynnir croeso i'r gymuned ar y wefan dan ddogfennau'r agenda a dogfennau cysylltiedig http://llangoedmorcc.org.uk/

Llangoedmor Community Council meets on 1st Monday of the month at 7p.m (excluding Bank Holidays – see website). The first 15 minutes are allocated to any member of the community who wishes to raise an issue with the Community Council.

Currently meetings are held at the Coracle Hall (unless otherwise advertised) with access via Zoom, an invitation to the community is extended on the website under agenda and supporting documents http://llangoedmorcc.org.uk/

Llangoedmor Community Council meets on 1st Monday of the month at 7p.m (excluding Bank Holidays – see website). The first 15 minutes are allocated to any member of the community who wishes to raise an issue with the Community Council.

Currently meetings are held at the Coracle Hall (unless otherwise advertised) with access via Zoom, an invitation to the community is extended on the website under agenda and supporting documents http://llangoedmorcc.org.uk/

## Beth yw Cyngor Cymuned a beth mae'n ei wneud?

- Cyngor Cymuned yw'r lefel fwyaf lleol o lywodraeth yn y gymuned.
- Mae Cynghorau Cymuned (sy'n cyfateb i Gynghorau Plwyf yn Lloegr) yn gyrff cyfreithiol wedi'u creu drwy Ddeddf Seneddol, ac mae ganddyn nhw hawl i godi treth leol. (a elwir yn Braesept) ar bob cartref.
- Gwneir penderfyniadau'r Cyngor gan Gynghorwyr Cymuned sy'n cael eu hethol gan bleidleiswyr lleol.
- Swyddogaeth Cyngor Cymuned yw hyrwyddo'i ardal leol, cynrychioli ei buddiannau a chefnogi gwaith grwpiau cymunedol lleol.
- Mae Cynghorau Cymuned hefyd yn darparu ystod fach o wasanaethau cyhoeddus lleol sy'n amrywio yn ôl maint y pentrefi. Fodd bynnag, mae cyfrifoldebau Cynghorau Cymuned yn gyfyngedig gan fod yn rhan fwyaf o wasanaethau llywodraeth leol yn cael eu cyflawni gan y Cyngor Sir.

## What is a Community Council and what does it do?

- A Community Council is the most local level of government in the community.
- Community councils (equivalent of Parish Councils in England) are legal bodies created by Act of Parliament and have the right to levy a local tax (called a Precept) on every household.
- Decisions of the Council are made by Community Councillors who are elected by local voters.
- The role of a Community Council is to promote their local areas, represent its interests and support the work of local community groups.
- Community Councils also provide a limited range of local public services which vary according to the size of the villages. However, the responsibilities of Community Councils are limited, as most local government services are undertaken by the County Council.

**Beth mae Cyngor Cymdeithas Llangoedmor (CCLl) yn ei wneud?**

Mae cryn ddryswch ynglŷn â phwy sy'n rhedeg gwasanaethau cyhoeddus. Mae hynny'n ddealladwy gan nad yw bob amser yn hawdd gweld pwy sy'n gwneud beth a pham. Fodd bynnag, fel rheol cyfrifoldeb Cyngor Sir Ceredigion (CSC) yw'r rhan fwyaf o wasanaethau llywodraeth leol.

Mae CCLl yn lobio am weithredu cymunedol yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae CCLl yn gweithredu fel corff i ymgynghori ag ef ar geisiadau cynllunio. CSC yw'r awdurdod cynllunio.

Mae CCLl yn cynnig cynllun ariannu ar gyfer gyrff cymunedol, ac mae mwy o wybodaeth i'w chael yma http://llangoedmorcc.org.uk/grant-funding/

**Cyngor Cymdeithas Llangoedmor yn unig sy'n gyfrifol am:**

- Y bloc toiledau ym mharc ceir Neuadd y Cwrwgl
- Adeilad y Mileniwm wrth Bont Llechryd
- Y cysgodfannau bysiau (ar wahân i Lôn y Ladi)
- Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd

**Cyngor Cymdeithas Llangoedmor yw'r unig Ymddiriedolwr rheoli dros**

- Gae chwarae Llechryd
- Man chwarae Llechryd

**Digwyddiadau'n cael eu trefnu neu eu cefnogi'n ariannol gan CCLl**

- Cinio Nadolig y Pensiynwyr
- Y goleuadau Nadolig

## What does Llangoemdor Community Council (LCC) do?

There is a lot of confusion about who runs which public services. This is understandable as it is not always easy to work out who does what and why. However, generally, most local government services are the responsibility of Ceredigion County Council (CCC).

LCC lobbies for community actions both locally and nationally

LCC acts as a non-statutory consultee on planning applications. The planning authority is CCC.

LCC offers a grant funding scheme for local community organisations, more information can be found here http://llangoedmorcc.org.uk/grant-funding/

**Llangoedmor Community Council has sole responsibility for:**

- The toilet block in the Coracle Hall car park
- The Millennium building by Llechryd bridge
- The bus shelters (apart from Lady Road)
- St David's Holy Cross Church, Llechryd

**Llangeodmor Community Council is sole managing Trustee for**

- Llechryd playing field
- Llechryd play area

**Events Organised or financially supported by LCC**

- Pensioners Christmas Lunch
- Christmas lights